# Grŵp Cynghori Annibynnol

Cylch Gorchwyl – Ionawr 2017

## Diben

Diben y Grŵp Cynghori Annibynnol yw rhoi cyngor strategol, cyffredinol ac annibynnol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y Gyfarwyddiaeth Addysg a phartneriaid cyflawni ar sut i gyflawni a gweithredu'r argymhellion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus*: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru ac *Addysgu Athrawon Yfory:* Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru; a sicrhau cysondeb â datblygiad yr Academi Arweinyddiaeth a dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Mae swyddogaethau penodol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Sicrhau bod y broses weithredu yn gyson â'r weledigaeth a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus* a'r argymhellion yn *Addysgu Athrawon Yfory* a bod y dulliau gweithredu cenedlaethol ar gyfer Arwain a Dysgu Proffesiynol yn ategu'r weledigaeth hon ac yn cynorthwyo'r gweithlu i ddatblygu capasiti a'r gallu i gyflawni.
- Rhoi cyfeiriad strategol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a'i phartneriaid cyflawni a gweithio'n adeiladol gyda nhw er mwyn cefnogi ffyrdd newydd o weithio a dulliau gweithredu newydd o ran dylunio, datblygu a gwireddu tair prif elfen y broses ddiwygio - diwygio'r Cwricwlwm, Addysg Gychwynnol Athrawon a dulliau gweithredu cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ac Arwain.
- Gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' mewn perthynas â'r cyfeiriad teithio o ran cynlluniau cyflawni, amserlenni, risgiau a rhyngddibyniaethau allweddol.
- Fel 'cyfaill beirniadol', gallu ymgymryd â gweithgarwch er mwyn rhoi sicrwydd pellach o ran cyflawni'r rhaglen fel y bo'n briodol/angenrheidiol. Gallai hyn gynnwys ystod o weithgareddau gan gynnwys 'plymio'n ddwfn' a mynediad agored at arweinwyr, timau, cyfarfodydd a phapurau llif gwaith.
- Cynghori Llywodraeth Cymru a'r Cabinet yn ystod camau allweddol o'r broses o gyflawni'r rhaglen, er na fydd disgwyl i aelodau gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.
- Bydd y Grŵp Cynghori Annibynnol hefyd yn ystyried buddiannau rhanddeiliaid allanol ac efallai y byddant am ymgysylltu'n adeiladol â nhw drwy'r broses o gyflawni'r rhaglen.
- Gwahoddir Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Newid (neu unrhyw Fwrdd arall / Byrddau eraill sy'n cymryd cyfrifoldeb am reolaeth gyffredinol y Rhaglen Ddiwygio) fel sylwedydd.

## Cefndir

Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus:* Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, ym mis Chwefror 2015 ac mae'n cynnwys argymhellion pellgyrhaeddol ac uchelgeisiol ar gyfer cwricwlwm newydd yng Nghymru.  Mae'r argymhellion yn cynnwys dylunio'r cwricwlwm, asesu ac atebolrwydd ac mae ganddynt oblygiadau sylweddol i'r gweithlu addysg.

Mae adroddiad yr Athro John Furlong, *Addysgu Athrawon Yfory:* Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn nodi opsiynau ar gyfer diwygio AGA er mwyn paratoi athrawon i fodloni gofynion addysgu gan gynnwys y gofynion sy'n deillio o adolygiad Donaldson.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol er mwyn gwella ansawdd ac argaeledd cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r sawl sy'n gweithio mewn ysgolion.

Mae'r tair elfen hon o'r broses ddiwygio yn rhyngddibynnol ac yn gofyn am waith cydlynu a rheoli gofalus a chlos.

Yn unol â nodau *Cymwys am Oes*, a'r nod o ddatblygu system hunanwella, rhaid bwrw ymlaen â'r broses weithredu mewn partneriaeth â'r sector addysg.

## Aelodaeth

Cadeirir y Grŵp Cynghori Annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson. Penderfynwyd ar aelodaeth y Grŵp ar ôl trafodaethau â'r Athro Donaldson ym mis Mehefin 2015 - ceir rhestr o'r aelodau isod:

| | |
|---|---|
| Yr Athro John Furlong | Cynghorydd, Addysg Gychwynnol Athrawon |
| Yr Athro Louise Hayward | Asesu Cwricwlwm ac Addysgeg, Prifysgol Glasgow |
| Dr Dylan Jones | Deon, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Anne Keane | Annibynnol (Prif Arolygydd Estyn gynt) |
| Brett Pugh | Annibynnol |
| Huw Evans | Cadeirydd, Bwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru |
| Kevin Tansley | Pennaeth, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Caerdydd |
| Ryan Davies | Pennaeth, Ysgol yr Esgob Gore, Abertawe |
| Ty Golding | Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg |
| Alison Heale | Pennaeth, Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy |
| Emma Rofe | Pennaeth, Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr |
| Gwag | Pennaeth, Ysgol Uwchradd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg |
| Yr Athro Simon Gibson | Prif Weithredwr, Wesley Clover Corporation |
| Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm |

## Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol

Mae pob aelod yn gyfrifol am ddod â'i sgiliau, ei brofiad a'i arbenigedd i'r Grŵp, gan sicrhau ei fod yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir o dan 'Diben' uchod mewn ffordd fuddiol ac adeiladol.

Cyn cyfarfodydd, disgwylir i aelodau'r Grŵp ddarllen yr holl ddeunyddiau a gyflwynir iddynt i'w hystyried a rhoi barn ac enghreifftiau perthnasol o brofiad i'w trafod yn ystod cyfarfod y Grŵp mewn ffordd amserol a phriodol.

Gall Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol, yn seiliedig ar asesiad o gynnydd a risgiau i'r broses gyflawni, benderfynu cymryd mwy o ddiddordeb a chynnig cyngor penodol mwy manwl ar agweddau ar y broses weithredu lle ystyrir eu bod yn allweddol i lwyddiant cyffredinol y rhaglen ddiwygio.

O bryd i'w gilydd, gall y Bwrdd Newid neu Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ofyn i aelodau GCA roi cyngor penodol neu fanwl ar agweddau ar y broses ddiwygio lle gallai eu gwybodaeth a'u profiad helpu i lywio cyfeiriad neu ddatrys mater penodol.

## Amlder y Cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Cynghori Annibynnol yn cyfarfod **bob chwarter** o leiaf er mwyn adolygu cynnydd a rhoi cyfeiriad, cymorth a chyngor.

## Cymorth gweinyddol

Bydd y Grŵp Cynghori Annibynnol yn derbyn cymorth gweinyddol pwrpasol gan Dîm y Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm. Bydd y Grŵp yn gosod ei agenda ei hun ac yn pennu ei flaenoriaethau ei hun. Gall y Grŵp ofyn am gyngor a chymorth fel y bo'n briodol er mwyn ei gynorthwyo i ymgymryd â'i rôl.

## Adrodd

Bydd Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn rheolaidd. Gall y diweddariadau hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan ddarparu asesiad annibynnol o lefel yr hyder yn y broses gyflawni. Bydd y Cadeirydd hefyd yn cael cyfle i gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet yn rheolaidd i drafod cynnydd.